

## CYFFES FFYDD

### 16. Am swyddau y cyfryngwr.

Iesu Grist yw yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion; y mae yn Gyfryngwr y cyfamod (neu destament) newydd; yn Iachawdwr, Gwaredwr, a Bugail, o osodiad a boddlonrwydd Dwyfol a chyfamodol (a) ; a phob cyflawnder ac addasrwydd gogoneddus ynddo, oherwydd mawredd ei Berson, ei osodiad tragwyddol, a'i eneiniad â'r Ysbryd Glân, yn ei rasau, a'i ddoniau, yn ddifedur (b). Ac y mae yn cyflawni y swyddau hyn, fel Proffwyd, trwy egluro Duw, ei gyngor, a'i holl feddwl yn y gair sanctaidd, trwy yr offerynnau a ddefnyddiodd, a'i weinidogaeth bersonol ei hun yn nyddiau ei gnawd (c), a gwaith parhaol ei Ysbryd, Trwy yr offerynnau a'r moddion a drefnodd, i oleuo yn gadwedigol yr holl eglwys yn y pethau angenrheidiol i'w gwybod er Iachawdwriaeth (d).

Fel Offeiriad, yn sefyllfa ei ddarostyngiad, yn lle ei bobl, a than gyfrifiad o'u pechodau, trwy ei holl ufudd-dod gweithredol a dioddefol, rhoddodd Aberth, Offrwm, ac lawn perffaith, difai i Dduw dros ei holl eglwys (e). Yn sefyllfa ei ddyrchafiad, y mae yn eiriol yn y nef dros yr holl droseddwy'r a roddwyd iddo, ac a brynodd efe â'i werthfawr waed. Efe a barhâ i eiriol nes y gwelo o lafur ei enaid, a'i ddiwallu (f).

Fel Brenin, y mae yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys, yn llywodraethu ar bob peth er ei llesâd, ei pharhad, a'i chynnydd; yn casglu ac yn darostwng pechaduriaid yn ddeiliaid iddo ei hun, yn teyrnasu yn rasol yn eu heneidiau, ac yn diogelu, amddiffyn, a llwyr waredu ei holl brynedigion, a'u gwobrwyo yn mhen eu taith (g).

## **16. Of the Offices of the Mediator.**

*Jesus Christ is the only Mediator between God and men. He is the Mediator of the new covenant (or Testament), a Saviour, Deliverer. Shepherd; ordained in covenant according to the good pleasure of God (a). All fulness and glorious fitness are found in him, in virtue of the greatness of his Person, his eternal appointment, and his anointing with the graces and gifts of the Holy Ghost, without measure (b). He fulfills this extensive office as Prophet, by declaring God and his whole council and purpose in Holy Scripture, through the instruments which he used; in his personal ministry in the days of his flesh (c); and in the abiding work of his Spirit, through the instruments and means which he appointed for savingly enlightening his whole church, concerning those things which are necessary to be known in order to salvation (d). As Priest, in his state of humiliation, in the stead of his people, and under the imputation of their sins, he offered up, by his active and passive obedience, a Sacrifice, Offering, and Atonement, perfect and without spot to God, for his whole church (e). In his state of exaltation, he intercedes in heaven for all the transgressors that were given him, whom he purchased with his precious blood. He will continue to intercede until he sees of the travail of his soul and is satisfied (f). As King, he is the head over all things to his church; rules over all things for its good, its continuance, and increase; gathers together and bring sinners into subjection to himself; reigns graciously in their souls; protects, defends, and saves to the uttermost all his redeemed; and rewards them at the end of their course (g).*

**(a) Heb. 9:1,; 13:20; Eff./Eph. 5:23; Math./Matt. 1:21; Ioan/John 6:27, 10:11; Rhuf./Rom. 3:25.**

**(b) Col. 1:19, 2:9-10; Heb. 7:26; Salm/Psa 45:2; Diar./Prov. 8:23; Eseia/Isa. 11: 1-3, 6:1-2; Ioan/John 3:34; Actau/Acts 4:27, 10:38. (c) Deut. 18:18-19; Ioan/John 1:18; Math./Matt. 17:5; Actau/Acts 3:22-23; Luc/Luke 7:16.**

**(d) 1 Pedr/Peter 1:11-12; Eff./Eph. 4:11-12; 1 Cor. 2:10-16, 12:6-11; Titus 3:5-6; Ioan/John 16:7, 13-14; 1 Ioan/1 John 2:20,27.**

**(e) Salm/Psa 110:4; Math./Matt. 20:28, 26:28; Heb. 5:8-10, 7:26-27, 9:13-14, 28, 10:14, 20; Rhuf./Rom. 3:25.**

**(f) Eseia/Isa. 53:10-12; Heb. 7:24-25; Ioan/John 17:24; Rhuf./Rom. 5:10, 8:33,34; 1 Ioan/1 John 2:1.**

**(g) Salm/Psa. 2:6, 45:3-6, 110:2; Eff./Eph 1:22; Math./Matt. 28:18; Diar./Prov. 8:15-16; Ioan/John 10:28-29, 14:2, 17:2; Luc/Luke 1:33; Col. 1:13, 3:1-3; Phil. 2:9-10; 1 Pedr/1 Peter 1:5; 1 Cor. 15:24-25; Dat./Rev. 3:21, 22:12.**